Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Henry Richard

**Tregaron**
**Ceredigion**
**SY25 6HG**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Henry Richard

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Henry Richard |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Ysgolion pob oed |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 381 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 349 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | Ddim yn berthnasol |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin | 19 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Ysgolion pob oed yw 20.2%) | 17.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Ysgolion pob oed yw 8.6%) | 6.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 53.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2016 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/02/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 14/10/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Henry Richard yn gweithredu'n effeithiol fel un gymuned ofalgar ar gyfer disgyblion o 3 i 16 oed. Ar draws yr ysgol, mae staff yn hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus, gan ddarparu cefnogaeth fugeiliol gref. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu, ac maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'i uwch dîm arwain yn rhannu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddathlu cymuned Tregaron a Chymreictod. Yn eu tro, mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sydd yn aml wedi'u hysbrydoli gan yr ardal leol. Mae hyn yn agwedd nodedig o waith yr ysgol. Mae llawer o'r gwersi ar draws yr ysgol yn ddiddorol ac yn herio disgyblion yn briodol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn gwneud defnydd medrus o dechnegau fel holi a modelu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud o leiaf gynnydd priodol yn y gwersi.

Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn gryfder, gyda'r disgyblion yn elwa o gyfleoedd amrywiol i berfformio mewn gwahanol gyd-destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd yn llwyddiannus, yn enwedig mewn gwersi Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, er bod disgyblion yn cael cyfleoedd i gymhwyso medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, nid yw'r gweithgareddau hyn bob amser wedi'u cynllunio'n ddigon pwrpasol i alluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn raddol dros amser.

Mae gan arweinwyr prosesau addas ar gyfer hunanwerthuso'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer gwella, ond nid ydynt bob tro'n ffocysu digon ar effaith eu gwaith ar ddeilliannau disgyblion. Er bod lefelau presenoldeb disgyblion wedi cynyddu'n ddiweddar, nid ydynt wedi gwella i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Yn ogystal, mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn rhy uchel.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ffocysu ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau ddisgyblion

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion yn eu medrau

A3 Lleihau cyfradd yr absenoldebau parhaus

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Ar draws yr ysgol, mae bron bob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn gwrtais a pharchus tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae gan lawer ohonynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Yn ystod y sesiynau dysgu, mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio ar eu tasgau, gan ymgysylltu’n fwriadus â’r gweithgareddau. Mae’r mwyafrif ohonynt yn cydweithio’n effeithiol mewn parau neu grwpiau gan gyfrannu’n hyderus. Mae’r mwyafrif yn dangos gwytnwch wrth wynebu heriau. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd digonol neu well mewn sesiynau. Yn yr ychydig wersi ble mae’r addysgu ar ei orau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Yn yr ychydig o achosion lle mae’r addysgu yn llai effeithiol, maent yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau naws gynhaliol a gweithgar yn eu dosbarthiadau trwy osod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad ac ymrwymiad disgyblion tuag at eu gwaith. Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn. Maent yn defnyddio terminoleg a geirfa yn bwrpasol er mwyn bwydo a chefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ieithyddol, gan gynnwys y disgyblion hynny sy’n newyddach i’r Gymraeg. Mae’r athrawon hyn yn llywio’r dysgu trwy gynnig cyfarwyddiadau ac esboniadau clir fel bod disgyblion yn deall natur y tasgau a osodir. Yn ogystal, maent yn holi cwestiynau addas er mwyn helpu disgyblion i adalw eu gwybodaeth flaenorol ac yn cylchu’r dosbarth yn bwrpasol er mwyn gwirio bod disgyblion yn cwblhau eu gwaith. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr sy’n adeiladu ar ei gilydd yn raddol i alluogi disgyblion i ddysgu a gwneud cynnydd addas. Er enghraifft, maent yn cynllunio gweithgareddau cychwynnol ‘Bant â’r Cart’ er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion a’u helpu i adalw gwybodaeth flaenorol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn sicrhau bod cyflymder priodol i’r wers gan wirio’r dysgu yn rheolaidd. Yn nosbarthiadau’r disgyblion ieuengaf, mae athrawon yn sicrhau bod dulliau dysgu sylfaen ar waith yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus.

Yn yr ychydig o sesiynau ble mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn, mae athrawon yn ysgogi disgyblion trwy eu hysbrydoli i fod yn chwilfrydig a brwdfrydig. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni gan fodelu sut y gallent gyflawni gwaith o’r safon uchaf. Cynllunia’r athrawon hyn yn hynod fedrus, gan esbonio cysyniadau pynciol yn gelfydd a holi cwestiynau yn grefftus. Maent yn adnabod camgymeriadau yn y dysgu yn amserol, gan addasu’r addysgu i ymateb i anghenion y disgyblion yn gelfydd. Maent yn cynnig adborth adeiladol yn y fan a’r lle i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn iawn.

Mewn ychydig o sesiynau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd mwy cyfyngedig. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn aml yn cynllunio cyfres o dasgau ailadroddus sy’n cadw disgyblion yn brysur yn hytrach nag ystyried sut gellir datblygu ac ymestyn dealltwriaeth yr holl ddisgyblion. Yn aml, nid yw’r athrawon hyn yn holi cwestiynau digon treiddgar fel bod disgyblion yn cael cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth neu nid ydynt yn herio camsyniadau yn ddigon amserol. Maent yn gor-gyfarwyddo’r dysgu gan olygu bod llai o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn colli cyfleoedd i fodelu beth yw gwaith o’r safon ddisgwyliedig ac yn holi ac ateb cwestiynau dros y disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig priodol. Yn aml, rhoddir sylw buddiol i wallau sillafu a gramadeg, gan ddefnyddio cod marcio cyffredin. Yn yr ychydig enghreifftiau gorau, mae athrawon yn cynnig adborth pwrpasol a phenodol sy’n galluogi llawer o ddisgyblion i gyfoethogi cynnwys ac ansawdd eu gwaith ysgrifenedig. Er enghraifft, mae defnydd effeithiol o strategaeth ‘bocs melyn’ yn y llyfrau Cymraeg yn helpu disgyblion i wella ansawdd eu gwaith. Drwyddi draw, mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd yr adborth ar lafar ac ysgrifenedig a gynigir, ac o ganlyniad, nid yw’n cael digon o effaith ar wella safon gwaith disgyblion.

Mae arweinwyr wedi datblygu cwricwlwm sy’n ymgorffori a dathlu cyd-destun, diwylliant a threftadaeth yr ardal leol yn hynod lwyddiannus. Mae hyn yn gwireddu gweledigaeth yr ysgol o ‘ddatblygu dysgwyr sydd yn rhan weithredol o’u cymunedau lleol’. Mae staff wedi cydweithio’n effeithiol â disgyblion, rhieni a’r gymuned ehangach i sefydlu gweledigaeth ble mae’r ysgol yn darparu profiadau dysgu sy’n ennyn diddordeb disgyblion, yn tanio eu dychymyg ac yn hygyrch i bawb.

**Ciplun – darparu cwricwlwm sy’n ystyried y cyd-destun lleol yn effeithiol**

Mae’r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd euraidd i ddisgyblion ddylanwadu’n bwrpasol ar eu dysgu. Maent yn awgrymu gweithgareddau cyffrous a dychmygus yr hoffent eu cwblhau er mwyn ateb y cwestiwn ‘sbardun’ sy’n cael ei osod ar gychwyn bob uned o waith. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ystyried ‘Sut allwn adeiladu cymuned?’ cyn mynd ati i gynllunio ‘penllanw’ yr uned, sef ymweliad â’r ysbyty lleol i chwarae gemau a chadw cwmni i’r cleifion hynaf. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu gwerthoedd pwysig fel empathi ynghyd â synnwyr o falchder a chariad tuag at eu cynefin.

Mae ymwybyddiaeth ysbrydol a moesol y disgyblion yn cael ei chefnogi’n briodol trwy gyfrwng y rhaglen ‘Munud i Feddwl’ a gwasanaethau ysgol. Darperir ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau a herio ystrydebau a rhagfarn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae’r cwricwlwm ym Mlwyddyn 10 a 11 yn cynnig amrediad o bynciau sy’n adlewyrchu cyd-destun yr ysgol a diddordebau’r disgyblion yn dda.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu medrau siarad a gwrando cadarn o oedran ifanc. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r mwyafrif yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus sy’n defnyddio terminoleg bynciol yn bwrpasol. Mae lleiafrif o’r disgyblion hynaf yr ysgol yn cyfrannu atebion byrion, gydag ychydig yn swil a thawedog wrth gynnig atebion ar lafar neu pan maent yn trafod gyda phartner.

Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda rhugldeb priodol i'w hoedran gan ddefnyddio strategaethau pwrpasol er mwyn darllen geiriau llai cyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus yn y ddwy iaith, gyda llawer yn dangos mwynhad o ddarllen, trwy gyfeirio at hoff awduron. Mae'r agweddau cadarnhaol sydd gan ddisgyblion at ddarllen ar draws yr ystod oedran yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn gallu adnabod nodweddion arddull ac maent yn anodi'n  bwrpasol o fewn testunau, er enghraifft er mwyn dadansoddi sut mae awduron yn creu awyrgylch yn effeithiol o fewn testun. Mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli gwybodaeth yn briodol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso medrau darllen uwch yn y meysydd hyn, er enghraifft i ganfod ystyr sydd ymhlyg mewn ffynonellau ac ystyried dibynadwyedd testun.

Mae gweithgareddau buddiol yn yr ardaloedd dysgu sylfaen yn cefnogi disgyblion ieuengaf yr ysgol i ddatblygu eu medrau modur mân yn effeithiol. Mae hyn yn ei dro yn galluogi llawer ohonynt i gaffael medrau ysgrifennu cynnar yn briodol. Yn yr arferion gorau, sydd i'w gweld mewn gwersi Cymraeg a Saesneg Blynyddoedd 7 i 11, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'r gallu i ysgrifennu'n llwyddiannus mewn amryw ffurfiau. Maent yn ystyried yn effeithiol gynulleidfa a phwrpas y dasg. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu ymson 'y wal' wedi ei hysbrydoli gan hanes a chymeriadau lleol mart Tregaron. Fodd bynnag, lle mae'r ddarpariaeth yn llai effeithiol, nid yw disgyblion yn derbyn cael o gyfleoedd bwriadus i ysgrifennu'n estynedig.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau rhifedd dros amser. Mae'r disgyblion ieuengaf, er enghraifft, yn cychwyn adnabod siapiau syml. Maent yn adeiladu ar eu dealltwriaeth dros amser ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn defnyddio fformiwlâu yn effeithiol i gyfrifo arwynebedd sgwariau a phetryalau. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 9 yn defnyddio data yn gywir, er enghraifft i ddadansoddi graff a rhagdybio'r gwrthiant mewn gwifren. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r tasgau rhifedd wedi eu cynllunio mewn modd digon cydlynus na phwrpasol mewn gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel wrth weithio ar-lein. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod briodol o becynnau digidol i gefnogi eu dysgu yn addas. Ar y cyfan, maent yn gwneud cynnydd addas wrth gymhwyso medrau digidol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd i gymhwyso medrau digidol wedi eu cynllunio'n ddigon bwriadus.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus, er enghraifft mewn gwersi celf a thecstilau. Mae llawer yn elwa o gyfleoedd bwriadus i gymhwyso eu medrau creadigol trwy brosiectau penodol, er enghraifft wrth greu fideo cerddorol gyda chantorion adnabyddus i hybu digwyddiad roc lleol. Mae llawer yn perfformio'n raenus mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft mewn Eisteddfodau, cyngherddau a sioeau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol yn llwyddiannus trwy ystod dda o weithgareddau mewn gwersi addysg gorfforol rheolaidd.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Henry Richard yn rhagori ym maes gofal a lles disgyblion. Mae gan y staff adnabyddiaeth arbennig o'r disgyblion a'u teuluoedd. Mae'n gymuned agos, ofalgar a chynhwysol sydd â naws deuluol ac ymdeimlad cryf o berthyn i un ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg. Mae gwerthoedd yr ysgol sef parch, perthyn, uchelgais, caredigrwydd, tegwch, Cymreictod a dyfalbarhad yn ganolog. Rhennir negeseuon moesol yn fwriadus i hyrwyddo agweddau cynhwysol a chadarn ymysg y disgyblion yn sgil materion cydraddoldeb, amrywiaeth a goddefgarwch hiliol. Darperir ychydig o gyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd. Mae'r tîm bugeiliol yn darparu cefnogaeth a chynhaliaeth fugeiliol werthfawr, gan gynnwys darpariaeth yr 'Hafan' a'r 'Caban'.

**Ciplun - cydweithio â'r gymuned i gefnogi lles disgyblion**

Adnabu arweinwyr yr angen i sicrhau bod disgyblion a theuluoedd yn derbyn gwybodaeth am sut i gadw'n ddiogel dros wyliau'r haf. Trefnodd staff farchnad iechyd a lles teuluol werthfawr o'r enw 'Llwybrau Lles'. Roedd hyn yn gyfle i deuluoedd ymweld â stondinau gwybodaeth oedd yn cael eu rhedeg gan ddisgyblion a staff ynghyd ag ystod o bartneriaid allanol. Rhoddwyd pwyslais ar ddiddordebau'r disgyblion. Er enghraifft, darparwyd gwybodaeth am sut i gadw'n ddiogel ar y traeth, ar-lein ac mewn cyd-destunau amaethyddol. Yn ogystal, cyflwynwyd gwybodaeth werthfawr am fwyta'n iach, iechyd meddwl ac urddas mislif i helpu disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hiechyd a'u lles personol dros gyfnod y gwyliau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb yn briodol ac effeithiol i unrhyw achos o fwlio. Maent yn teimlo'n hapus yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau ac ymddygiadau iach yn effeithiol sy'n arwain at lefelau uchel o ymwybyddiaeth am ddewisiadau iach ymhlith disgyblion. Mae gwersi Iechyd a Lles yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i drafod materion pwysig, er enghraifft wrth ystyried sut i leddfu gor-bryder a sut i gadw'r meddwl yn iach.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth ymuno â'r ysgol. Mae staff yn dod i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar drwy greu cyswllt â theuluoedd cyn i ddisgyblion ddechrau yn y meithrin, neu cyn iddynt ymuno ym Mlwyddyn 7, yn ogystal â thrafod anghenion disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o ffês i ffês. Mae hyn yn sicrhau profiad pontio cryf i'r disgyblion. Mae cyfundrefnau cynhwysfawr ar waith i gefnogi a chynghori disgyblion wrth iddynt baratoi i droedio i gymal nesaf eu taith, boed yn un addysgol neu i fyd gwaith.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae arlwy eang ar gyfer myrdd o ddiddordebau ar draws sawl maes, gan gynnwys chwaraeon ac yn y celfyddydau. Mae'r ethos Cymreig a'r gweithgareddau i hybu Cymreictod ar draws yr ysgol yn gryfder nodedig. Er enghraifft, gwobrwyir y disgyblion gyda thocynnau iaith er mwyn eu gwario yn y siop Gymraeg bob hanner tymor. Mae hyn yn cyfrannu at eu brwdfrydedd i siarad Cymraeg yn yr ysgol.

Trwy amrywiaeth eang o gynghorau a phwyllgorau, mae'r disgyblion yn elwa o'r cyfleoedd i ddatblygu medrau arwain blaengar. Maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn gweithredu'n effeithiol iawn gan sicrhau newidiadau gwerthfawr, er enghraifft wrth gyfrannu i'r broses o ailgynllunio'r toiledau a darparu blychau urddas mislif. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu barn ac yn gweithredu ar eu syniadau.

Mae gan y tîm anghenion dysgu ychwanegol (ADY) adnabyddiaeth dda o anghenion disgyblion. Maent yn monitro cynnydd y disgyblion o'u mannau cychwyn yn briodol ac yn cydlynu ymyraethau sydd ar gael i'r disgyblion hyn yn bwrpasol. Cydweithia'r ysgol yn agos gydag amryfal asiantaethau allanol er mwyn cynnig cefnogaeth ychwanegol i'r dysgwyr hyn. Trefnir hyfforddiant pwrpasol i staff yr ysgol ar ddulliau o gefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae hyn oll yn cyfoethogi dealltwriaeth y staff o anghenion disgyblion unigol ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu diwallu'n llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn codi ymwybyddiaeth disgyblion a theuluoedd o bwysigrwydd presenoldeb trwy wasanaethau a gohebiaeth. Mae arweinwyr yn tracio presenoldeb disgyblion yn effeithiol gan gynnwys olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion. Maent yn cydweithio ag asiantaethau allanol er mwyn darparu cefnogaeth briodol er mwyn cefnogi disgyblion i ailgysylltu â'u dysgu trwy wneud addasiadau gwerthfawr i gwricwlwm yr ysgol. Er bod presenoldeb disgyblion wedi gwella ers y pandemig, mae cyfradd yr absenoldebau parhaus yn rhy uchel.

### Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol sy'n argyhoeddedig yn ei genhadaeth i ddatblygu disgyblion annibynnol sy'n dangos gwytnwch personol gyda dyheadau uchel am y dyfodol. Mae hyn wedi seilio'n gadarn ar osod yr ysgol yng nghanol ei chymuned ac ar arwyddair yr ysgol, sef 'mewn llafur mae elw'. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac uchelgeisiol o ysgol sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gadael yr ysgol yn barod i gyfrannu'n llawn i'w cymunedau lleol. Mae'r weledigaeth hon yn cael ei choleddu'n llawn gan randdeiliaid yr ysgol.

Mae cyfrifoldebau aelodau'r uwch dîm arwain wedi eu dyrannu'n synhwyrol. Maent yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol, yn ymgymryd â'u rolau yn ddiwyd ac yn cydweithio'n llwyddiannus. Maent yn adnabod blaenoriaethau gwella priodol sy'n rhoi ffocws addas ar agweddau pwysig megis arweinyddiaeth ac addysgu.

Mae arweinwyr canol yn angerddol am eu gwaith ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'u rôl. Mae uwch arweinwyr wedi cryfhau trefniadau rheoli llinell, ac o ganlyniad, mae cyfarfodydd rheoli llinell rheolaidd yn darparu cyfleoedd buddiol i drafod materion addas. Mae gan yr ysgol galendr priodol o weithgareddau ar gyfer hunanwerthuso sy'n cynnwys teithiau dysgu, craffu ar lyfrau a chasglu llais y disgybl yn gyson. At ei gilydd, er bod arweinwyr ar bod lefel yn ystyried y ddarpariaeth, nid ydynt yn arfarnu effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid ydynt yn llwyr ymwybodol o gryfderau a meysydd i'w gwella yn eu maes cyfrifoldeb.

Mae arweinwyr wedi bod yn llwyddiannus wrth ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol megis diwygio darpariaeth ADY, rhoi ffocws ar y Gymraeg a datblygu cwricwlwm sy’n adlewyrchu gweledigaeth yr ysgol yn llwyr. Mae arweinwyr wedi cyflwyno amrywiaeth o strategaethau i liniaru effaith tlodi. Maent yn defnyddio data ac adnabyddiaeth gryf o’u disgyblion er mwyn adnabod a darparu cefnogaeth addysgol a lles i’r disgyblion hyn. Er bod arweinwyr wedi rhoi strategaethau priodol ar waith, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella presenoldeb disgyblion sydd ag absenoldeb parhaus.

Mae’r ysgol yn cynnwys yr holl staff mewn ystod briodol o weithgareddau datblygiad proffesiynol. Mae cyswllt clir rhwng y gweithgareddau hyn a’r blaenoriaethau gwella. Mae bron pob aelod o staff yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd dysgu proffesiynol ac maent wedi manteisio ar gyfleoedd cyson i rannu arfer dda a chydweithio ag asiantaethau a phartneriaid allanol. Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer rheoli perfformiad. Mae targedau staff yn ffocysu’n briodol ar flaenoriaethau gwella’r ysgol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr brwd o'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o flaenoriaethau’r ysgol ac maent yn datblygu eu rôl fel cyfaill beirniadol. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu cryf o fewn yr ysgol, lle mae lles a diogelwch disgyblion yn flaenoriaeth i’r holl staff. Mae’r llywodraethwyr a’r pennaeth, gyda chefnogaeth swyddog cyllid yr awdurdod lleol, yn monitro gwariant yn ofalus.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2024